## PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea. M.J.G. Morgan a R. Sivagnanam.

Hefyd yn Bresennol: Y Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 13 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 14 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

### 15 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

### 16 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 17 DIWYGIAD ARFAETHEDIG I AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT YN DILYN YMGYNGHORI (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Tîm Trwyddedu a ddywedodd fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygio Amodau Trwydded Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Bwriad y diwygiadau arfaethedig oedd cynyddu faint o amser oedd gan berchnogion i gyflwyno eu cerbyd i'w brofi wrth adnewyddu eu trwydded. Ar hyn o bryd roedd ganddynt 10 diwrnod gwaith i

gyflwyno eu cerbyd i'w brofi, y cynnig oedd cynyddu hyn i fis a fyddai'n dod â hyn yn unol â threfniadau profi MOT presennol ar gyfer pob cerbyd.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, ar ôl ystyried y mater yn llawn a heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, a diwygio amod 33 o Amodau Trwydded Cerbyd Hacni, ynghyd ag amod 38 o Amodau'r Drwydded Cerbyd Hurio Preifat, ar unwaith i adlewyrchu'r geiriad diwygiedig, fel yr amlinellwyd yn Argymhelliad (1) o fewn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.